



[www.ysgolbotwnnog.org](http://www.ysgolbotwnnog.org)



## YN Y BWLETIN TYMOR YMA

- ✓ CYSYLLTU
- ✓ PRESENOLDEB
- ✓ BLWYDDYN 11 2015
- ✓ GWAITH YSGOL
- ✓ DYDDIADAU ARHOLIADAU
- ✓ DYDDIAU PWYSIG ERAILL
- ... A MWY

## NEGES GAN Y PRIFATHRO



Mr Dylan Minnice

Croeso'n ôl i bawb ar ddechrau blwyddyn newydd. Croeso arbennig i ddisgyblion newydd ac i'r 89 disgybl sydd wedi cychwyn ym mlwyddyn 7.

Byddwn yn gyrru bwletin tymhorol i chi gyda gwybodaeth bwysig am ddigwyddiadau yn yr ysgol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach yna peidiwch ag oedi â chysylltu.

## CYSYLLTU Â'R YSGOL

Os oes unrhyw beth yn eich pryderu ynglŷn â bywyd ysgol eich mab/merch yna cysylltwch â ni:

☎ 01758 730220

✉ [pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk](mailto:pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk)

neu gan ddefnyddio'r ffurflen ar lein ar ein gwefan

💻 [www.ysgolbotwnnog.org/cysylltu.php](http://www.ysgolbotwnnog.org/cysylltu.php)

Mi geisiwn ymateb i'ch pryder o fewn 24 awr.

## Ymweld â'r Ysgol

Er lles diogelwch mae angen i pob ymwelydd gofrestru yn y Brif Swyddfa wrth gyrraedd yr Ysgol.

## STAFF

### Croeso i'r staff newydd

Miss Bethan Priestley - Pennaeth Mathemateg

Mr Owen Llywelyn Williams - Saesneg

Mr Alan Wyn Jones - Saesneg

Croeso'n ôl i Mrs Alaw Jones Japheth a Miss Awen Griffith ar ôl eu cyfnod mamolaeth a diolch i Miss Sera Bailey a Mrs Angela Rhydderch am eu gwaith yn ystod absenoldeb mamolaeth y ddwy.

### Dymuniadau gorau

Dymunwn yn dda i Mrs Heulwen Lloyd Brunelli, Mrs Ellen Wyn Jones a Ms Marian Roberts ar eu hymddeoliad.

Diolch hefyd i Mr Daniel Roberts am ddysgu Electroneg i flwyddyn 11 a phob hwyl iddo ar ei waith yn darlithio yn y Brifysgol.

Dymuniadau gorau hefyd i Miss Delyth Hughes a Miss Llinos Hughes wrth iddynt gychwyn ar eu swyddi newydd.

**Diolch yn fawr i bob un ohonynt am eu gwaith caled dros y blynnyddoedd.**

## CYSYLLTU Â'R CARTREF

Byddwn yn ceisio gyrru gwybodaeth i gartrefi ein disgyblion yn weddol aml - gwybodaeth am ddyddiadau pwysig, gweithgareddau ac yn y blaen.

### E-bost

Tra ein bod yn dal i yrru llythyrau ar bapur, mae hi'n gallu bod yn fwy cyfleus a dibynadwy gyrru neges ar ebost neu hyd yn oed, os oes mater brys yn codi, drwy neges destun.

I wneud hyn mor hwylus â phosibl hoffwn i chi sicrhau fod swyddfa'r ysgol gyda'ch manylion ebost cywir.

Os oes gennych gyfeiriad ebost ond heb dderbyn y bwletin yma drwy ebost a fuasech cystal â gyrru neges i - [pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk](mailto:pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk) i ddweud hynny gan nodi enw a dosbarth eich plentyn.

### Negeseuon Testun

Dylech fod wedi derbyn neges destun gan yr ysgol yn nodi bod y bwletin ysgol ar y ffordd. Unwaith eto, os nad ydych wedi derbyn y neges honno yna cysylltwch â Mrs Nerys Williams yn y swyddfa neu ebostiwch [pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk](mailto:pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk)

## POLISI MEDDYGINIAETH

Fel rhan o'r polisi Meddyginaeth byddwn yn anfon ffurflen i chi lenwi os ydych am i'ch plentyn gymryd unrhyw feddyginaeth yn yr ysgol. Cofiwch fod rhaid i bob meddyginaeth gael ei gadw yn y swyddfa ac eithrio pwmp asthma. Mae posib gweld y polisi llawn ar wefan yr ysgol neu cysylltwch os ydych yn dymuno copi papur.

## TYWYDD GARW A CHAU'R YSGOL

Os cyfyd sefyllfa pan fo rhaid cau'r ysgol oherwydd rhesymau tu allan i'n rheolaeth - tywydd, dim trydan neu ddŵr, ac yn y blaen; byddwn yn ceisio gyrru neges destun i'r cartref i'ch hysbysu. Gallwn yrru neges i bob cartref o fewn munudau i'ch hysbysu - cyn belled fod gennym rif ffôn symudol dilys.

Byddwn hefyd yn rhoi cyhoeddiad ar Radio Cymru rhwng 7:00 ac 8:00 y bore ac ar wefan y Cyngor - [www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk)

Os oes rhaid cau'r ysgol yn ystod y dydd a bod angen anfon y plant gartref oherwydd ystyriaethau iechyd a diogelwch - dyma fydd y drefn:-

- i. y plant i fynd gartref ar y bws (os mai felly maent yn dod i'r ysgol)
- ii. wedi dod oddi ar y bws y plant i fynd i'w cartrefi neu i dŷ perthynas neu ffrind (yn ôl eich cyfarwyddyd chi fel rhieni).

## BWLIO

Nid yw bwlio yn broblem fawr yn Ysgol Botwnnog. **Ond** pan mae achos o fwlio mae staff yn gwneud eu gorau i rwystro'r bwlio rhag digwydd eto. Mae Polisi Atal Bwlio yn yr ysgol gyda strategaethau i gefnogi unrhyw ddisgybl sy'n cael ei fwlio ac i ddelio â'r bwli. 'Rydym am i'n pobl ifanc fod yn hapus a diogel yn yr ysgol. Nid ydym am weld unrhyw ddisgybl yn dioddef bwlio. Mae'r disgyblion yn gwybod y gallant gysylltu â Bydis Blwyddyn 11 neu unrhyw aelod o'r staff i adrodd am unrhyw fath o fwlio.

Mi wyddoch hefyd fel rhieni / gwarcheidwaid y gallwch gysylltu â mi neu'r dirprwy i drafod bwlio neu i adrodd am fwlio (bwlio yn yr ysgol, ar y bws neu trwy'r mobile neu safleoedd cymdeithasol fel 'Facebook', 'Twitter'.)

Bydd materion yn ymwneud â bwlio yn cael blaenoriaeth gennym fel ysgol. **Nid yw bwlio yn dderbyniol yn Ysgol Botwnnog.** Mae posteri gwrth-fwlio yn amlwg ar waliau'r ysgol ac yn ategu y neges hon. Mae'n gyfrifoldeb ar ddisgyblion a staff i sicrhau fod yr ysgol yn lle diogel.

Gallech hefyd ymweld â gwefan [www.bullying.co.uk](http://www.bullying.co.uk) a llawer o wefannau tebyg am gyngor pellach. (Gweler y dudalen **Gwefannau Defnyddiol** ar wefan yr ysgol <http://www.ysgolbotwnnog.org/gwefannau-defnyddiol.html>)

## PRESENOLDEB

Mae presenoldeb da yn parhau yn flaenoriaeth yn yr Ysgol. Gyda'ch cefnogaeth chi 'roedd presenoldeb yr ysgol yn 95% - ein targed uchelgeisiol ar gyfer eleni ydi gwella eto ar hyn.

**Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol os yw'r disgyblion i fanteisio yn llawn ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.**

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol oedd â 100% presenoldeb am y flwyddyn ysgol 2014 / 2015.

- 7 Madrun** – Helena Griffith\*, Erin Morgan\*, Elin Owen\*
- 7 Meillionydd** – Guto Brady\*, Tomos Dobson\*, Ffion Kelliher
- 8 Madrun** - Huw Jones-Evans, Gruffudd Pozzi, Owain Siôn Roberts
- 8 Meillionydd** – Morgan Jones, Now Williams\*
- 9 Madrun** – Mari Elin Jones, Steffan Kelliher, Gwawr Williams\*, Lleucu Williams\*
- 9 Meillionydd** - Osian Morgan\*
- 10 Meillionydd** – Chloe Munnery
- 10 Mellteyrn** – Finn Evans\*, Steffan Roberts

\* - heb golli 'run diwrnod o ysgol ers dechrau yn Ysgol Botwnnog

Rhoddyd gwobr o £10 yr un iddynt a £5 i aelodau y dosbarth â'r presenoldeb gorau 7 Madrun.




### PRESENOLDEB GWYCH

Rhai o ddisgyblion yr ysgol yn derbyn tystysgrif a gwobr am eu presenoldeb gwyth y flwyddyn ddiwethaf

## BETH YW PRESENOLDEB DA?

Er fod 90% neu fwy yn swnio'n dda (byddai marciau prawf felly yn ganmoladwy iawn) nid yw hynny mor wir pan ddaw at bresenoldeb:



## ABSENOLDEB - TREFN CYSYLLTU

Er mwyn sicrhau fod pawb sydd i fod yn yr ysgol yn bresennol gofynnwn i chi gysylltu â'r ysgol ar fore cyntaf unrhyw absenoldeb fel ein bod yn gwybod os yw eich mab/merch i fod yma ai peidio.

Gofynnwn i chi adael i ni wybod os yw eich mab / merch yn absennol drwy ffonio 01758 730220 rhwng 8:00 a 9:15.

Os na fydd yr ysgol wedi derbyn galwad ffôn erbyn 9.15 o'r gloch yn dweud wrthym pam nad yw eich plentyn yn yr ysgol, yna byddwn yn cysylltu gyda'r cartref neu'r man gwaith.

## CAIS AM WYLIU TEULU YN YSTOD Y TYMOR

Yn dilyn cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru mae'r Cyngor Sir wedi argymhell i'w hysgolion awdurdodi dim mwy na 5 diwrnod o wyliau / ymweliadau i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 (blynnyddoedd 7,8,9) a pheidio awdurdodi unrhyw wyliau i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 (blynnyddoedd 10 ac 11) yn ystod y tymor ysgol.

Byddwn yn cadw at y cyfarwyddyd yma yn Ysgol Botwnnog. Bydd unrhyw absenoldebau y tu allan i'r cyfyngiadau hyn yn cael eu cofnodi fel absenoldeb heb awdurdod. Mae Swyddog Lles Addysg yr Awdurdod yn monitro absenoldebau heb awdurdod yn wythnosol ac os ceir 10 neu fwy ohonynt gallai arwain at rybudd cost benodedig.

Cyn mynd ar wyliau neu ymweliadau eraill yn ystod y tymor dylai rhiant gysylltu â'r Prifathro i dderbyn caniatâd i dynnu plentyn o'r Ysgol.



# BLWYDDYN 11 - 2015

## CANLYNIADAU HAF 2015

'Roedd canlyniadau blwyddyn 11 yn rhai da. Llwyddodd 86% (83% yn 2014) o ddisgyblion Blwyddyn 11 i ennill 5 TGAU neu fwy graddau A\* - C.

Mae'r rhan helaeth o flwyddyn 11 (88%) wedi cychwyn ar gyrsiau mewn colegau neu 6ed dosbarth, 5% wedi dechrau prentisiaeth a 5% wedi dechrau gweithio.

**Llongyfarchiadau i'r disgyblion a phob dymuniad da iddynt ar gyfer y dyfodol. Diolch i'r athrawon a'r rhieni am baratoi'r disgyblion mor drwyadl a'u cefnogi dros y ddwy flynedd diwethaf.**

**Gwerthfawrogi'r cardiau a rhoddion a ddaeth gan ddisgyblion a rhieni yn diolch i'r ysgol.**

## PROM 2015

Cafodd Blwyddyn 11 gyfle i ymlacio ar ôl yr arholiadau yn y Prom a gynhaliwyd yn Nant Gwrtheyrn. Cafwyd prynhawn braf iawn yno a chyflwynwyd gwobrau'r ysgol i'r disgyblion.



PROM 2015

Pawb yn edrych yn smart iawn ar eu ffordd i'r Prom yn Nant Gwrtheyrn

## GWOBRAU'R YSGOL 2015

**TLWS COFFA IDRIS WILLIAMS - Dinesydd y flwyddyn**  
Bedwyr Williams, Blwyddyn 11.

**TARIAN PENCAMPWR CHWARAEON**  
Tom Froom, Blwyddyn 11.

**TLWS COFFA GLYN JONES - Rygbi**  
Aaron Lewis, Blwyddyn 11.

**TARIAN GOLFF**  
Tom Froom, Blwyddyn 11.

**GWOBR GOFFA LEWIS ROBERTS**  
Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth, Mathemateg,  
Technoleg  
Evalyn Usher, Blwyddyn 11.

**GWOBR URDD LIFRAI CYMRU - Myfyriwr rhagorol**  
Tomos Turtle, Blwyddyn 11

**DYSGWR Y FLWYDDYN**  
Mikee Mariñas, Blwyddyn 11



Bedwyr



Tom



Aaron



Evalyn



Tomos



Mikee

---

---

## BLWYDDYN 10 AC 11

---

Mae'r gwaith a gyflawnir yn ystod y ddwy flynedd yma yn gallu llywio gweddill bywyd eich mab / merch. Rydym yma i geisio, gyda'ch cefnogaeth chi, sicrhau fod pob un disgybl yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

### ARHOLIADAU ALLANOL

Bydd disgyblion blwyddyn 10 ac 11 yn sefyll arholiadau **ALLANOL** (sydd **YN** cyfrif tuag at eu graddau terfynol) ar sawl adeg yn ystod y ddwy flynedd:

Gweler y dudalen Dyddiadau Pwysig am ragor o fanylion.

### ASESIADAU DAN REOLAETH (*Gwaith cwrs*)

Mae Aseidiadau dan Reolaeth (*gwaith cwrs gynt*) yn bwysig yn y rhan fwyaf o bynciau TGAU. Maent yn cyfrif rhwng 20% a 60% o'r marc terfynol ym mron bob pwnc.

Mae'r rhain yn cael eu cynnal drwy gydol blwyddyn 10 ac 11 mewn gwahanol bynciau - o'r wers gyntaf ym mlwyddyn 10 tan fis Mai Blwyddyn 11.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn gorfod cael eu cwblhau o fewn hyn a hyn o oriau mewn gwersi dan oruchwyliaeth athro - felly os ydy eich mab/merch yn absennol o'r gwersi yna bydd rhaid iddynt ddal i fyny amser cinio neu ar ôl ysgol.

### BAGLORIAETH CYMRU (blwyddyn 10)

Mae cwrs newydd BAC yn cychwyn ar gyfer blwyddyn 10 eleni. Bydd cwblhau 4 aseiad dan reolaeth angen eu cwblhau dros gyfnod y ddwy flynedd yn arwain at ennill Cymhwyster Her Sylfaenol neu Cenedlaethol. Rhaid hefyd pasio o leiaf 5 TGAU (neu gyfatebol) i ennill y gymhwyster BAC llawn.

---

## GWAITH CARTREF

---

Mae gwaith cartref yn arf bwysig i wella safon gwaith eich mab / merch. Bydd polisi ac amserlen gwaith cartref yn cael ei yrru i chi maes o law. Mae taro golwg dros waith eich mab / merch wrth iddynt gwblhau eu gwaith cartref yn ffordd dda i gadw golwg ar sut maent yn gwneud yn yr ysgol. Cofnodir gwaith cartref ar daflen bwrpasol sydd wedi ei gludo ym mhob llyfr.

Os nad ydi disgybl yn cwblhau gwaith cartref yna byddant yn cael eu cosbi:

- Bydd yr athro/awes pwnc yn rhoi rhybudd yn lle cyntaf;
- Os nad yw'r gwaith yn cael ei gwblhau yn dilyn y rhybudd yna cedwir y disgybl i mewn amser egwyl/cinio;
- Gall yr athro/awes pwnc gyfeirio disgybl sydd yn parhau i beidio â chwblhau gwaith i sylw'r pennaeth adran fydd yn arwain at y disgybl yn cael ei fonitro neu ei gadw fewn am gyfnod hirach;
- Os nad yw hyn yn datrys y broblem, cyfeirir y disgybl at y Dirprwy Brifathro neu'r Prifathro fydd yn cysylltu gyda rhieni/warcheidwaid y disgybl i drafod y ffordd ymlaen. Gall hyn gynnwys eu cadw yn y Clwb Gwaith Cartref ar ôl ysgol neu eu rhwystro rhag cael mynd ar deithiau neu ymweliadau.

Dilynir yr un camau os bydd disgybl yn camymddwyn mewn unrhyw ffordd arall mewn gwersi neu o gwmpas yr ysgol.

---

## CLWB GWAITH CARTREF

---

Pob nos Lun a Mercher o 3.30 - 5.00 mae cyfle i ddisgyblion aros yn yr ysgol yn y Llyfrgell a'r Ganolfan Adnoddau i gwblhau gwaith. Bydd aelod o staff yno i'w cynorthwyo os ydynt angen.

Gellir trefnu i'ch mab/merch aros yn y Clwb Gwaith Cartref trwy gysylltu â'r ysgol.

---

## YSTAFELL WAITH / ANOGAETH

---

Gall y disgyblion fanteisio ar y cyfle i weithio amser egwyl/cinio yn y Llyfrgell neu'r Ystafell Adnoddau. Gallant hefyd fynd i ystafell 7 lle mae modd cael cefnogaeth aelod o'r staff annog os ydynt yn cael trafferth gyda'u gwaith.

## CEFNOGAETH I'CH MAB / MERCH

Yn Ysgol Botwnnog 'rydym yn ymdrechu i roi'r gofal gorau i bob disgybl ac os yw eich mab / merch yn cael amser anodd neu yn cael trafferthion gyda'u gwaith neu problemau lles yna mae gennym nifer o arbenigwyr a all eu helpu:

Mr Geraint Hughes .....	Dirprwy Brifathro / Swyddog Lles
Mrs Alaw Jones Japheth .....	Lles y Merched
Mr Dafydd Eurgain Jones a Mr Dafydd Owen .....	Cymorthyddion / Mentoriaid
Mrs Ann James.....	Anogwr Dysgu
Mrs Carol Pilling.....	Anogwr Dysgu / Mentor
Mrs Vida Kennedy.....	Cwnselydd
Mrs Carys Hughes .....	Swyddog Lles Addysg yr Awdurdod

Os hoffech i ni gyfeirio eich mab / merch at un o'r uchod yna cysylltwch â Mr Geraint Hughes, y Dirprwy Brifathro.

## ARHOLIADAU

### ARHOLIADAU SWYDDOGOL - ALLANOL - YN CYFRIF TUAG AT RADDAU TGAU/TLM

#### HYDREF 2015 - BLWYDDYN 11

Saesneg Llafar .....	Hydref 7
----------------------	----------

#### TACHWEDD 2015 - BLWYDDYN 11

Mathemateg Papur 1, Set 2 a 3 .....	Tachwedd 4
Mathemateg Papur 2, Set 2 a 3 .....	Tachwedd 10

#### IONAWR 2016 - BLWYDDYN 11

Saesneg Llên (Uned 1 - ail sefyll) .....	Ionawr 6
Bioleg (ail sefyll).....	Ionawr 7
Busnes Uned 2 (ail sefyll).....	Ionawr 7
Saesneg Iaith Uned 1 - Bl 11 TGAU i gyd .....	Ionawr 8
Saesneg Iaith Uned 2 - Bl 11 TGAU i gyd .....	Ionawr 12
Cemeg (ail sefyll).....	Ionawr 12
TGCH Uned 1 (Bl 11 TGCH i gyd).....	Ionawr 13
Ffiseg (ail sefyll) .....	Ionawr 14
Cymraeg Iaith Uned 1 - Bl 11 TGAU i gyd .....	Ionawr 15

#### CHWEFROR/MAWRTH 2016 - BLWYDDYN 11

Arlwyo Ymarferol .....	Chwefror 1 ac Mawrth 8 neu 15
Arholiad Celf .....	Mawrth 7 ac 8
Saesneg - Tystysgrif Lefel Mynediad (set 4) .....	Mawrth 14
Mathemateg - Tystysgrif Lefel Mynediad (rhai o set 4—Bl 10 ac 11).....	Mawrth 18

#### MAI/MEHEFIN 2016 - BLWYDDYN 11

ARHOLIADAU TGAU HAF .....	Mai 13 - Mehefin 21
---------------------------	---------------------

#### MAI/MEHEFIN 2016 - BLWYDDYN 10

Cymraeg Ail Iaith Uned 1 .....	Mai 13
Ast. Crefyddol Uned 1 .....	Mai 16
TGCH Uned 1.....	Mai 18
Busnes Uned 2 .....	Mai 25
Cymraeg Ail Iaith Uned 4 .....	Mai 27
Bioleg .....	Mehefin 15
Cemeg .....	Mehefin 17
Ffiseg.....	Mehefin 20
Hanes Uned 3.....	Mehefin 21

### PROFION DARLLEN A RHIFEDD CENEDLAETHOL - BLWYDDYN 7,8,9..... Mai 3 - 12

## ARHOLIADAU MEWNOL

Blwyddyn 11 (TGAU) Ffug..... Rhagfyr 16 – 22

Blwyddyn 10 ..... Ebrill 25 - 29

Blwyddyn 7, 8, 9 ..... Mehefin 20 – 24

**Gwybodaeth pellach am arholiadau Bl 10 ac 11 i ddod—Efallai y bydd rhai newidiadau yn ystod y flwyddyn. Bydd pob disgybl yn derbyn amserlen bersonol yn nodi eu harholiadau yn ystod y deufis cyn pob cyfnod arholi.**

## RHAI DYDDIADAU PWYSIG

**TYMOR YR HYDREF 2015 ..... Medi 2 - Rhagfyr 22**

Gwyliau Hanner Tymor ..... Hydref 26 - 30

Gwyliau Nadolig ..... Rhagfyr 23, 2015 - Ionawr 1, 2016

**TYMOR Y GWANWYN 2016 ..... Ionawr 4 – 24 Mawrth**

Gwyliau Hanner Tymor ..... Chwefror 15 - 19

Gwyliau'r Pasg ..... 25 Mawrth – 8 Ebrill

**TYMOR YR HAF 2015 ..... Ebrill 11 - Gorffennaf 18**

Calan Mai ..... Llundun, Mai 2

Gwyliau Hanner Tymor ..... 30 Mai - 3 Mehefin

Gwyliau'r Haf (**Dim ysgol i ddisgyblion ar Gorff 18 - diwrnod Hyfforddiant**) ..... Gorffennaf 19

**DIWRNODAU HYFFORDDIANT STAFF (Dim ysgol i'r plant)**

Dydd Gwener, 20 Tachwedd, 2015 (i'w gadarnhau)

Dydd Llundun 18, Gorffennaf, 2016

Un diwrnod arall i'w gadarnhau

**CYFARFOD RHIENI AC ATHRAWON**

I DRAFOD GWAITH DISGYBLION AR BRYNHAWN MAWRTH - 4.00 y.h. HYD AT 6.00 y.h.

Blwyddyn 11 ..... Hydref 20

Blwyddyn 7 ..... Ionawr 12

Blwyddyn 8 ..... Chwefror 2

Blwyddyn 10 ..... Mawrth 8

Blwyddyn 11 (Cyfarfod i drafod cynnydd) ..... Mawrth 22

Blwyddyn 9 (yn cynnwys cyfle i drafod opsiynau pynciau bl 10) ..... Ebrill 12

## TYNNU LLUNIAU PLANT

O dro i dro bydd yr ysgol / Cyngor Sir / y Wasg eisiau tynnu lluniau o weithgareddau'r ysgol. Bydd rhai o'r lluniau yn cael eu hanfon i'r papur newydd, **Llanw Llŷn** neu yn cael eu defnyddio mewn cyhoeddiadau neu ar wefan yr ysgol neu'r Cyngor neu at bwrpas asesu gwaith llafar ac ymarferol.

**Os nad ydych yn fodlon i'ch plentyn gael ei gynnwys mewn lluniau yna cysylltwch â'r ysgol i nodi hynny os gwelwch yn dda.**

## APÊL - LLYFRAU YSGOL

Plis allwch chi daro golwg i weld os oes gennych lyfrau sydd yn perthyn i'r ysgol. Mae ambell i ddisgybl yn anghofio dychwelyd gwerslyfrau neu lyfrau llyfrgell. Buaswn yn gwerthfawrogi petaech yn gallu dychwelyd unrhyw lyfrau o'r fath i'r ysgol os gwelwch yn dda. Diolch yn fawr am eich cymorth gyda hyn.



# “MAE POB PLENTYN YN CYFRI’, MAE POB DIWRNOD YN CYFRI’”

Mae Ysgol Botwnnog wedi bod yn edrych yn ofalus ar ddwy agwedd o fywyd yr ysgol a sut y gallwn ei ddatblygu a’i wella ymhellach.

## 1. Presenoldeb

Heb bresenoldeb da (96%) ofer yw ein holl ymdrechion i baratoi addysg o safon uchel i’ch plentyn. Os nad yw disgybl yn bresennol yn yr ysgol ni all gyrraedd ei lawn botensial. Mae ymchwil yn dangos fod plant nad ydynt yn yr ysgol yn colli addysg, cyfleoedd cymdeithasol a phrofiadau hanfodol i ddatblygu eu sgiliau. Mae hyn yn arwain yn y pen draw at berfformiad is yn yr arholiadau. Mae’n polisi presenoldeb yn nodi na allwn awdurdodi unrhyw wyliau yn ystod y tymor ysgol ym mlynnyddoedd 10 ac 11 a dim ond am 5 diwrnod, os derbynnir cais ysgrifenedig ymlaenllaw, ym mlynnyddoedd 7, 8 a 9. Fel arall mae’n cael ei gofnodi fel absenoldeb heb awdurdod ar gofnod eich plentyn. Mae i bawb darged o 96% presenoldeb dros y 5 mlynedd maent yn Ysgol Botwnnog. Os disgyn y presenoldeb ond i 90% yn y cyfnod yma mae’n gyfystyr â cholli hanner blwyddyn o wersi! Pan fydd eich plentyn yn sâl cadwch ef/hi adref am y lleiafswm o amser sy’n rhaid, fel arall os yw’n dioddef o fân salwch, fel anwyd neu gur pen gyrrwch ef/hi i’r ysgol. Cofiwch fod y Cyngor Sir yn monitro presenoldeb eich plentyn ac efo’r cyfrifoldeb a’r hawl i weithredu os yw’n dirywio.

## 2. Cydraddoldeb

Mae hawliau pob plentyn i addysg heb ragfarn o unrhyw fath yn sylfaenol i Ysgol Botwnnog.

Mae Ysgol Botwnnog yn gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod fod gan bawb anghenion a thueddiadau gwahanol. **Yn Ysgol Botwnnog byddwn yn parchu unigolion beth bynnag fo eu:**

- Tarddiad ethnig
- Rhyw
- Oedran
- Statws priodasol
- Tueddiadau rhywiol
- Anabledd
- Crefydd (neu anffyddiaeth)
- Iaith
- Cenedl
- Dibynyddion

Ein nod yw:-

- Creu ethos o ddiogelwch a gwerthfawrogiad
- Creu ymdeimlad o hunan barch
- Gosod disgygliadau uchel ar ddisgyblion a’u rhieni
- Rhoi ystyriaeth addas i anghenion dysgu
- Adnabod gweithdrefnau eglur ar gyfer ymateb i ddigwyddiad gwahaniaethol
- Herio ymddygiad rhagfarnllyd a stereoteipiau
- Hyrwyddo delweddau positif
- Lleihau digwyddiadau bwllo flwyddyn ar flwyddyn

Mae hyn yn wir am y Corff Llywodraethol, Uwch Dîm Rheoli, Staff, Ymwelwyr a Chontractwyr yn gweithio yn yr ysgol.

Mae copi llawn o’r Polisiau Presenoldeb a Chydraddoldeb ar wefan yr ysgol [www.botwnnog.org](http://www.botwnnog.org). Cysylltwch â’r Dirprwy, Mr. G.O. Hughes os am wybodaeth bellach.